Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig

Canllaw i Ymarferwyr y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

Rhagfyr 2010

75% wedi'i ailgylchu
recycled

ISBN 978 0 7504 5980 8
© Hawlfraint y Goron 2011
WAG10-11196
F1141011

Cynnwys

Tudalen

Beth yw Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig	4
Effaith ASD ar fywydau bob dydd a goblygiadau i'r System Cyfiawnder Troseddol	5
"Colli Arni"	8
Rhai Troseddau Nodweddiadol	9
Cyfweld Dioddefwyr a Thystion	13
Rhengoedd Adnabod ar Fideo	17
Amgylchiadau Anodd	19
Cynllun Cerdyn Sylw ASD	20
Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol	21
Crynodeb	22
Cysylltiadau yng Nghymru	22
Cysylltiadau Defnyddiol a Deunydd Darllen Pellach	22
Cyfeiriadau	23

Beth yw Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth?

Gwneir diagnosis o anhwylderau'r sbectrwm awtistiaeth (ASD) pan fo gan blentyn neu oedolyn amhariadau yn ymwneud â rhyngweithio cymdeithasol a chyfathrebu cymdeithasol ynghyd â diffyg ar ddychymyg cymdeithasol a phatrwm ailadroddus cyfyngedig o weithgareddau a diddordebau. Mae'r term 'anhwylder ar y sbectrwm awtistiaeth' yn derm eang sy'n cyfeirio at yr is-grwpiau a adwaenir fel Anhwylderau Datblygu Treiddiol (PDD). Mae'r is-grwpiau hyn yn cynnwys Awtistiaeth Plentyndod, syndrom Asperger, ac anhwylderau eraill ar y sbectrwm awtistiaeth, sydd i gyd yn cael eu diffinio gan Ddosbarthiad Rhyngwladol Sefydliad Iechyd y Byd o Anhwylderau Meddyliol ac Ymddygiadol. Dengys tystiolaeth ymchwil bod gan 1 o bob 100 unigolyn yn y Deyrnas Unedig anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Credir bod tua 27,000 o bobl yng Nghymru heddiw sydd ag anhwylder ar y sbectrwm awtistig. Er mwyn gwneud diagnosis cynhelir asesiad cynhwysfawr gan dîm profiadol o glinigwyr. Mae'r asesiad fel rheol yn cynnwys cyfweliad manwl gyda'r rhiant, asesiadau seicolegol ac ieithyddol penodol ac arsylwadau clinigol.

Mae cyfeirio unigolyn am asesiad a diagnosis yn ei alluogi i gael y cymorth a'r cyngor mwyaf addas, a dengys tystiolaeth mai cymorth addas ac ymyriad cynnar sy'n rhoi'r canlyniadau gorau i unigolion sydd ag ASD. Mae'n bwysig bod yn ymwybodol hefyd bod ASD i'w weld yn aml gyda chyflyrau meddygol eraill, boed yn gyflyrau corfforol neu feddyliol.

Er bod amcangyfrifon poblogaeth yn dangos bod Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig yn weddol gyffredin, mae nifer o achosion yn y boblogaeth bresennol sydd heb gael diagnosis, yn enwedig ymhlith oedolion. Yn ychwanegol at hyn, mae'n bosib y bydd gan rai unigolion arwyddion penodol o ASD heb o reidrwydd gael y syndrom ASD llawn a fyddai'n arwain at ddiagnosis. O ganlyniad, mae'n bwysig bod yn ymwybodol o arwyddion yr anhwylder, gan ei bod yn bosib na fydd llawer o'r bobl y bydd y system cyfiawnder troseddol yn dod i gysylltiad â hwy'n ymwybodol mai dyma pam y maent yn cael anawsterau. Cynlluniwyd cynnwys y pecyn hwn er mwyn darparu gwybodaeth am anhwylderau'r

sbectrwm awtistig i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym meysydd amrywiol y System Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru.

Effaith ASD ar fywydau bob dydd a goblygiadau i'r System Cyfiawnder Troseddol

Mae'r anawsterau y mae unigolion sydd ag ASD yn eu cael â rhyngweithio cymdeithasol, cyfathrebu llafar a di-eiriau ac anhyblygrwydd meddyliol yn effeithio ar eu bywydau bob dydd. Gall pethau y mae'r rhan fwyaf o bobl yn eu cymryd yn ganiataol achosi anawsterau mawr i unigolion sydd ar y sbectrwm a'u rhoi dan gryn dipyn o bwysau weithiau.

Anawsterau â Chyfathrebu Cymdeithasol

Mae llawer o bethau y byddwn yn eu cymryd yn ganiataol wrth ffurfio perthynas gyda theulu, ffrindiau neu bobl eraill. Rydym yn dysgu sut i wybod a yw rhywun mewn hwyliau da, ac yn dod i ddeall sut mae cyfleu ystyr cudd drwy ddefnyddio traw llais penodol. Gall hyn fod yn broses gymhleth i unigolion sydd ag ASD. Mae Luke Jackson (2002) yn dweud pa mor anodd yw hi weithiau i ddeall ystyr brawddeg, pan fo pwyslais ar un gair yn unig mewn brawddeg yn gallu newid yr ystyr yn llwyr. Dyma'i enghraifft ef:

- Alla i ddim gwneud hynny… sy'n awgrymu na alla i ddim, ond efallai y gall rhywun arall.
- Alla i ddim gwneud hynny… sy'n awgrymu nad yw hynny'n bosib.
- Alla i ddim gwneud hynny… sy'n awgrymu na alla i ddim gwneud hynny, ond efallai y galla i wneud rhywbeth arall.

Yn aml iawn mae iaith y corff yn dangos sut hwyliau sydd arnom. Gall gwgu ac edrych i lawr olygu ein bod yn anhapus heb i ni orfod dweud hynny wrth rywun. Os byddwn wedi blino gwrando ar rywun sydd ag ASD yn siarad am bwnc sydd o ddiddordeb mawr iddo ef, ac yn dechrau teimlo'n rhwystredig, ni fydd colli cyswllt llygad, ochneidio, pwffian a symud i ffwrdd yn dod â'r sgwrs i ben! Yn aml iawn ni fydd unigolion sydd ag ASD yn sylwi ar ein harwyddion corff cynnil ni. Byddwn hefyd yn defnyddio idiomau'n

rheolaidd yn ein hiaith bob dydd, e.e. ‘ Tynnu blewyn o drwyn’ a ‘llyncu mul’, ond gall ymadroddion fel y rhain fod yn ddryslyd iawn i unigolion ag ASD, sy’n cymryd pethau’n llythrennol iawn, a gallent arwain at ymddygiad trafferthus, annisgwyl.

Astudiaeth Achos:

Aeth Mr E i drafferthion yn y carchar gan ei fod wedi cymryd sylw sarcastig a wnaethpwyd gan swyddog yn llythrennol. Roedd y swyddog wedi dweud, ‘Pam na wnei di ofyn i bawb’, felly dyna beth wnaeth Mr E! Roedd y staff yn dweud ei fod yn ‘gwrthod gwrando’ a’i fod yn ‘mynd ar eu nerfau drwy ofyn yr un cwestiwn i bawb’. Roedden nhw’n dehongli hynny fel ymddygiad ystrywgar yn hytrach na dehongliad llythrennol o frawddeg ffwrdd â hi. Mae methu â deall eironi yn achosi problemau, ac ambell waith bydd staff (neu rai aelodau o’r staff) yn meddwl bod y ffaith fod unigolion yn cymryd sylw’n llythrennol yn ddoniol.

Anawsterau â Chysylltiadau Cymdeithasol

Gall anawsterau o’r fath wneud i rywun deimlo ei fod wedi’i ynysu, a gallant hyd yn oed arwain at iselder. Gall rhai unigolion sydd ag ASD fod â phroblemau iechyd meddwl. Efallai y bydd angen dysgu strategaethau fydd yn helpu unigolion i wneud ffrindiau ac i gadw ffrindiau, yn enwedig gan fod rhai unigolion, ar yr wyneb, yn gallu ymddangos yn ansensitif neu’n egosentrig. Gall unigolion sydd ag ASD fod yn onest iawn - maent yn hoffi siarad yn blaen ac, yn aml iawn, gallant dramgwyddo yn erbyn rhywun heb sylweddoli eu bod yn gwneud hynny. Maent hefyd yn cael cryn anhawster i ddeall sut i ymateb i deimladau pobl eraill a gallant ymateb mewn ffordd amhriodol mewn sefyllfa sensitif, e.e. cynhebrwng. Ambell waith gall ymddygiad amhriodol mewn man cyhoeddus eu cael i drafferthion difrifol a gall eu hawydd i wneud ffrindiau olygu eu bod yn cymysgu gyda’r criw anghywir.

Anhyblygrwydd meddyliol a Diddordebau Arbennig

Gall llawer o ‘ddiddordebau arbennig’ fod yn ddigon diniwed, e.e. casglu stampiau, ond gallai eraill fod yn beryglus iawn. Mae’n bosib y gallai person ifanc sydd wedi gwirioni gyda thân

wneud bomiau tân a'u taflu drwy ffenestri neu roi eiddo cymydog ar dân. Clywsom yn ddiweddar am ŵr ifanc a gyhuddwyd o lwytho pornograffi i lawr oddi ar y we. Nid oedd yn gweld dim byd pornograffig na rhywiol yn y deunydd - dim ond hoffi edrych ar luniau o'r corff dynol oedd o.

Nid oedd yn deall beth oedd y 'gweithgaredd' oedd yn digwydd yn y lluniau. Mae'n bwysig felly ein bod yn edrych ar ddiddordebau arbennig mewn cyd-destun ehangach. Yr enghreifftiau amlwg wrth gwrs yw tân, dŵr, gwenwyn ac arfau, ond efallai y byddai'n werth edrych yn ofalus hefyd ar ddiddordebau arbennig eraill llai amlwg, e.e. mae mwynhau tynnu cyfarpar electronig yn ddarnau a rhoi pethau yn ôl at ei gilydd wedyn yn iawn, oni bai fod y cyfarpar yn perthyn i rywun arall!

Mynnu cadw at reolau ac arferion

Mae pobl sydd ag ASD yn hoffi cael trefn yn eu bywydau ac maent yn ymateb yn dda iawn i reolau a phatrymau rheolaidd. Maent yn cael anhawster mawr i ddygymod â newid sydyn yn eu trefniadau dyddiol. Gall hyn achosi problemau â gweithdrefnau'r system cyfiawnder troseddol, a byddwn yn trafod hyn yn fanylach yn nes ymlaen yn y llyfryn.

'I have a need for order, therefore I constantly feel compelled to arrange and order my clothes, furniture, tableware and so on. If things are not in their right place, I may find it difficult to know what to do next, move into the next part of a conversation, work out the next part or aspect of a procedure and so on'.
Wendy Lawson (2001, t.77)

Trosglwyddo sgiliau

Nid yw sgiliau sy'n cael eu dysgu mewn un sefyllfa yn cael eu trosglwyddo / cyffredinoli'n awtomatig i sefyllfa arall debyg. Gall y broses hon o drosglwyddo sgiliau fod yn berthnasol i ryngweithio cymdeithasol hefyd, fel yr eglura Darius (yn Sainsbury, 2000):

‘I only recognise people if I see them in the same context and they wear the same clothes. It takes many years before I learn to recognise people in more than one situation or with different clothes. Even then meeting them in an unexpected situation/place will result in blank stares from me because I don’t recognise them.’ (t.82)

Colli arni

Mae unigolion sydd ag ASD yn sensitif iawn i rai profiadau synhwyraidd, a gall hyn arwain at ymddygiad sy’n ymddangos yn ymosodol. Mae pwysau gormodol ar y synhwyrau - neu straen cymdeithasol sy’n arwain at ymddygiad anarferol eithafol - yn gwneud i’r unigolyn golli arno’i hun. ‘Melt Down’ yw’r term Saesneg a ddefnyddir. Pan fydd yr unigolyn yn colli arno’i hun bydd ymddygiad gwahanol i’w weld - ymddygiad tebyg i strancio mewn plant ifanc neu ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn pobl hŷn. Weithiau gall amlygu ei hun fel crio afreolus. Mae’n hawdd camgymryd unigolyn sy’n colli arno’i hun fel rhywun sydd ar gyffuriau neu sydd wedi cael gormod o alcohol. Weithiau pan fo unigolion dan lawer o bwysau byddant yn rhoi eu dwylo dros eu clustiau ac yn siglo yn ôl ac ymlaen - neu hyd yn oed yn ysgwyd eu dwylo’n wyllt.

‘Sensory overload was a daily thing - sights, sounds, emotions, lights and touch were all experienced intensely and I was easily overwhelmed by what to others would seem like the simplest task… So periodically, at home and at school, the stress would build up and I would explode. Classic case of the straw that broke the camel’s back.’ Karen (yn Sainsbury 2000, t.120)

Mewn amgylchiadau o’r fath, mae’n bwysig siarad yn dawel, peidio â chynhyrfu, a defnyddio brawddegau byr, uniongyrchol. Nid yw’n syniad da sefyll yn rhy agos at y sawl sydd ag ASD, dod ato o’r cefn na’i gyffwrdd. Mae rhai pobl sydd ag ASD yn cymharu’r profiad o golli arni â chael ffit epileptig - ar ôl dechrau colli arnynt eu hunain mae’n rhaid i’r broses redeg ei chwrs. Mae angen i’r unigolyn ddod ato’i hun mewn amgylchedd distaw, diogel heb bobl eraill o’i gwmpas.

Os bydd yr unigolyn rydych yn ei adnabod, neu'r sawl rydych yn gweithio gydag ef, yn cael anawsterau o'r fath wrth ddod i gysylltiad â rhai synau, golygfeydd, arogleuon ac ati, ceisiwch sicrhau nad yw'n dod i gysylltiad â'r rhain a helpwch ef i ddysgu technegau lleihau straen, e.e. defnyddio peli straen, cael rhywbeth i 'ffidlan' ag ef.

Rhai Troseddau Nodweddiadol

Ymddygiad sy'n Tramgwyddo

Ambell waith mae unigolion sydd ag ASD yn dod i gysylltiad â'r System Cyfiawnder Troseddol oherwydd natur eu hanawsterau cymdeithasol, eu personoliaeth agored a'u parodrwydd i ymddiried mewn pobl, eu 'diddordebau arbennig' neu eu sensitifrwydd i brofiadau synhwyraidd.

Mae Howlin (2006) yn dweud y gallai unigolion sydd ag ASD fod yn agored iawn i gysylltiad â throseddau am y rhesymau a ganlyn:

- Gallai chwilfrydedd neu 'ddiddordeb arbennig' fod yn angheuol, e.e. tân neu wenwyn. Mae'n cyfeirio at ŵr ifanc oedd â chymaint o ddiddordeb mewn peiriannau golchi nes y byddai'n torri i mewn i siopau ac i dai pobl er mwyn eu harchwilio!
- Gallai casáu rhywbeth fel sŵn babi'n crio neu gi'n cyfarth arwain at ymddygiad ymosodol.
- Gallai diffyg gwybodaeth am gyffyrddiad priodol ac amhriodol arwain at gyhuddiad o aflonyddu rhywiol. Efallai y bydd unigolyn yn hoffi teimlad defnydd penodol fel melfed ac na fydd yn gweld dim byd o'i le mewn cyffwrdd cefn merch sy'n sefyll o'i flaen os yw hi'n digwydd bod yn gwisgo siaced felfed.
- Trais annisgwyl ac ymddygiad emosiynol sydyn sy'n cael ei sbarduno gan ysgogydd penodol yn yr amgylchedd nad yw'n amlwg ar yr olwg gyntaf.
- Gallai diddordeb arbennig mewn unigolyn / hoffter arbennig o unigolyn arwain at arferiad o'i ddilyn o le i le.
- Gall gweithgareddau sy'n briodol yn ystod plentyndod gael eu gweld fel ymddygiad amhriodol i oedolion, e.e. codi plant pobl hollol ddieithr neu eu cosi.

Mae Allen (2006) hefyd yn dweud ei bod yn hawdd iawn i unigolion sydd ag ASD gael eu tynnu i mewn i droseddau cyfrifiadurol, difrodi eiddo, troseddau cyffuriau a lladrata.

Gofynasom i athrawon sy'n dysgu plant a phobl ifanc ag ASD beth oedd rhai o'r problemau mwyaf yn eu barn hwy. Mynegwyd pryder ganddynt ynglŷn â'r ffaith fod gan ymddygiadau sy'n cael eu goddef yng nghyfnod plentyndod arwyddocâd gwahanol ym myd oedolion, e.e. cyffwrdd, gofyn cwestiynau amhriodol a phersonol iawn, gwthio pobl o'r neilltu a pheidio ag ymddiheuro a strancio neu wylltio'n gaclwm mewn mannau cyhoeddus. Mynegodd un athro bryder ynglŷn â'r ffaith fod y bobl ifanc hyn yn gallu cythruddo pobl a thynnu'n groes weithiau.

Cyfeiriodd un arall at y ffaith ei bod yn hawdd iawn i unigolion sydd ag ASD gael eu gorfodi i gyflawni troseddau fel mân ladradau a difrodi eiddo gan bobl niwronodweddiadol.

Mae Davis a Schunick (2002, tt.45-46) yn awgrymu y gallai unigolion sydd ag ASD ddod i gysylltiad â'r heddlu am y rhesymau canlynol:

- Ymddygiad hunanysgogol a hunan-niweidiol, fel ysgwyd dwylo'n wyllt, pinsio eu hunain, brathu eu hunain, gweithredoedd ailadroddus a churo'u hunain.
- Crwydro ar eu pen eu hunain, e.e. plant mewn dillad anaddas ar gyfer y tywydd yn crwydro ar eu pen eu hunain neu'n rhedeg i ganol traffig. (Maent yn nodi yma bod rhai plant sydd ag ASD yn cael eu denu at ddŵr ac, o ganlyniad, y gallent fod mewn perygl mwy na'r cyffredin o gwmpas llynnoedd a phyllau dŵr.)
- Sbecian drwy ffenestri.
- Agor a chau tapiau dŵr.
- Gall ymddygiad unigolyn sydd ag ASD fod yn debyg i ymddygiad rhywun sy'n camddefnyddio cyffuriau neu rywun sydd â salwch meddwl.
- Ymddygiad od neu aflonyddol fel gosod gwrthrychau mewn rhesi, Pica (bwyta gwrthrychau amhriodol), cerdded ar flaenau'r traed, siarad fel robot.
- Taro pobl neu eu brathu.

- Bod yn rhan o ffrae, e.e. efallai y byddant yn cyflawni trosedd heb sylweddoli beth maent wedi'i wneud.
- Amheuaeth o gam-drin plant - efallai fod rhieni'n atal plentyn gan ddefnyddio'r hyn a allai ymddangos yn rym amheus.

Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Ambell waith gall problemau waethygu yn dilyn trosedd gan fod ymddygiad yr unigolyn sydd ag ASD yn ymddangos yn wrthgymdeithasol. Er enghraifft, mewn sefyllfa lle disgwylid i'r unigolyn ryngweithio ag un o swyddogion yr heddlu gallai'r unigolyn:

- ymddwyn mewn ffordd amhriodol iawn o safbwynt cymdeithasol;
- peri tramgwydd heb sylweddoli ei fod yn gwneud hynny;
- ymddangos yn oeraidd, digywilydd, egosentrig neu ansensitif;
- peidio â gwybod sut i ymateb i sefyllfaoedd anghyfarwydd ac i deimladau pobl eraill;
- cael anhawster i ddeall a defnyddio dulliau cyfathrebu di-eiriau;
- casáu cael ei gyffwrdd;
- methu'n glir â goddef rhai synau ac arogleuon neu ysgogyddion synhwyraidd eraill;
- cymryd pethau'n llythrennol;
- methu â deall ystyr cudd neu ddilyn llawer o gyfarwyddiadau.

Buom yn siarad â grŵp o bobl ifanc am eu profiadau gyda'r heddlu. Roedd rhai ohonynt wedi canfod eu hunain mewn sefyllfaoedd lle'r oedd eu cyfathrebu cymdeithasol wedi arwain at gamddealltwriaeth. Er enghraifft, dywedodd un gŵr ifanc, 'Rydw i wedi bod mewn helynt ac roedden nhw (yr heddlu) yn meddwl mod i'n ddigywilydd, ond dweud y gwir roeddwn i.' Pan ofynnodd plismon, 'Wyt ti'n addo peidio â gwneud hyn byth eto?', roedd un gŵr ifanc wedi ateb, 'Na, dydw i ddim yn gwybod os gwna i hyn eto'. Nid oedd eisiau gwneud addewid nad oedd yn gwybod yn iawn a fyddai'n gallu ei gadw. Roedd un arall, pan ofynnwyd iddo a oedd yn gysylltiedig â lladrad o siop, wedi ateb 'Oeddwn'. Nid oedd wedi cyflawni'r trosedd, ond roedd yn y siop ar yr adeg y digwyddodd y lladrad.

Roedd ei ddehongliad ef o'r gair 'cysylltiedig' yn wahanol iawn i ddehongliad y plismon. Yn fyr, felly, gall unigolion sydd ag ASD ymddangos fel pe na baent yn cydweithredu, pan maent mewn gwirionedd yn ceisio bod mor agored ac onest ag sy'n bosib.

Bwriad Troseddol

'Do not take misbehaviour personally. The high functioning person with autism is not manipulative. Usually misbehaviour is the result of efforts to survive experiences which may be confusing, disorientating or frightening.' Wendy Lawson (2001, t.162)

Bydd pobl niwronodweddiadol, sef pobl sydd HEB ASD, yn defnyddio emosiwn a mynegiant wyneb ac yn cael sgwrs uniongyrchol gyda chi. Nid ydynt yn ailadrodd eu hunain. Mae'n bosib y bydd unigolyn sydd ag ASD, pan ofynnir iddo a yw wedi dwyn rhywbeth yn ateb - do, do, do… gan ei fod yn meddwl mai dyna'r ateb y dylai ei roi. Os yw'r unigolyn yn ateb - na, na, na ac yn dechrau ysgwyd ei ddwylo neu siglo mae angen meddwl yn ofalus iawn sut i ymdrin â'r sefyllfa.

Yn wahanol i unigolion sydd ag ASD, mae'n bosib na fydd pobl niwronodweddiadol yn edrych fel pe baent eisiau ymladd neu ddianc. Mae'n bosib y byddant yn gwneud eu gorau glas i edrych yn ddiniwed. Efallai y byddant yn ymddangos yn synhwyrol ac yn ymatebol. Pe baech yn gofyn i unigolyn sydd ag ASD - 'Beth ddigwyddodd?' - efallai y byddai'n troi ymaith, yn dechrau chwarae gyda'i fysedd neu'n ysgwyd ei ddwylo. Os byddwch yn holi mwy, bydd y gweithredoedd hyn yn mynd yn waeth.

Mae unigolion sydd ag ASD weithiau'n cydymffurfio â cheisiadau er mwyn plesio a gwneud ffrindiau. Maent yn hawdd iawn i'w darbwyllo. Er enghraifft, gallent ddechrau ymwneud â gwerthu cyffuriau gan eu bod yn gweld hynny fel ffordd o gael ffrindiau, heb ystyried na sylweddoli beth yw canlyniadau eu gweithredoedd. Mae angen i weithwyr proffesiynol asesu a yw'r sawl sydd ag ASD yn deall ei fod wedi cyflawni trosedd. Ambell waith, ni fydd rhywun sydd ag ASD yn sylweddoli bod ei ymddygiad yn anghyfreithlon. Ar y llaw arall, mae'n bosib na fydd

unigolyn sydd ag ASD yn deall bod rhywun wedi cyflawni trosedd fel lladrad neu drais yn ei erbyn.

'Another cringe worthy memory is how effortlessly I could be manipulated and consequently how my peers would wind me up for their own comedic purposes. It wasn't exactly difficult to get me to humiliate myself, because I was provoked by the most trivial of things.' Nita Jackson (2002, t.25)

Mae'n bwysig iawn bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol yn ymwybodol o faterion sy'n gysylltiedig ag ASD, ond nid ydym yn awgrymu o reidrwydd bod unigolion sydd ag ASD yn fwy tebygol o ymwneud â throseddau na phobl eraill. Ac os ydynt, mae'n bosib nad oes bwriad troseddol 'gwirioneddol'. Mae hwn yn fater pwysig iawn i'w ystyried.

Mae'n bosib hefyd y bydd y cyfryngau, yn y Deyrnas Unedig a thramor, yn dewis canolbwyntio yn eu hadroddiadau ar droseddau ac ASD, gan fod hynny'n gwneud yr eitem newyddion yn fwy diddorol na phe bai'r trosedd wedi'i gyflawni gan berson 'niwronodweddiadol'. Mae'n bwysig bod pobl sy'n gweithio ac yn byw gydag unigolion sydd ag ASD yn sylweddoli pa mor agored i niwed yw'r bobl hyn ac yn rhoi cyfarwyddyd a chefnogaeth iddynt i'w helpu i beidio â dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.

Cyfweld Dioddefwyr a Thystion

Oherwydd y gwahaniaethau yn y ffordd y mae unigolyn sydd ag awtistiaeth yn prosesu'r byd o'i gwmpas ac yn rhyngweithio ag ef, ac â phobl eraill, mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol yn datblygu sgiliau a fydd yn eu galluogi i ryngweithio'n effeithiol â'r unigolyn sydd ag awtistiaeth. Mae'n bwysig iawn o safbwynt y gweithiwr proffesiynol, pa un a yw'n ymdrin â'r unigolyn ar y sbectrwm fel dioddefwr, tyst, person sydd dan amheuaeth neu droseddwr sydd wedi cael ei gollfarnu, bod yr wybodaeth y mae'n ei chasglu mor gynhwysfawr a chywir ag sy'n bosib. Er mwyn cyflawni'r nod hwn mae'n bwysig helpu'r unigolyn sydd ag ASD i deimlo mor ddigynnwrf a diogel ag sy'n rhesymol bosib. Bydd newid

trefniadau'n achosi gofid mawr i lawer o unigolion, felly ni fydd cyfweliad annisgwyl gyda'r heddlu neu dwrnai o reidrwydd yn galluogi gweithiwr proffesiynol y system cyfiawnder troseddol i gael yr wybodaeth angenrheidiol.

Gorau po gyntaf y gall y gweithiwr proffesiynol ddod i'r casgliad ei fod yn ymdrin ag unigolyn sydd ar y sbectrwm awtistig, oherwydd bydd yn haws iddo wedyn ryngweithio â'r unigolyn mewn ffyrdd sy'n dileu'r rhwystrau sy'n atal cyfweliad buddiol.

Gallai'r Heddlu, wrth arestio person ag awtistiaeth sydd dan amheuaeth o gyflawni trosedd, ganfod eu hunain mewn sefyllfa anodd iawn lle maent yn ceisio cael gwybodaeth am ddigwyddiad gan unigolyn sydd mewn cyflwr pryderus iawn. Dylai'r heddlu ofyn am ragor o gymorth mewn sefyllfaoedd o'r fath, drwy gysylltu ag oedolyn priodol neu drwy hysbysu aelod o'r teulu neu ffrind. Gall mewnbwn aelod o'r teulu neu ffrind fod yn bwysig iawn i'r Heddlu, gan eu bod hwy'n gallu rhoi darlun cyflawn o'r unigolyn, ei ddiagnosis, a'r ffordd orau o ymdrin ag ef.

Gallai'r unigolyn fod â sgiliau cyfathrebu llafar da iawn, ond bod y sgiliau hynny'n cuddio'i wir ddealltwriaeth o'r sefyllfa a'r lleoliad y mae ynddo. Mae'n bosib y dylai'r gweithiwr proffesiynol newid lefel y rhyngweithio geiriol, gan sicrhau ei fod yn siarad mewn brawddegau byr, clir a diamwys. Ar ôl gofyn cwestiwn dylid rhoi mwy o amser i'r sawl sy'n cael ei gyfweld ymateb. Nid yw oedi cyn ateb cwestiwn yn golygu bod yr unigolyn yn euog nac ychwaith ei fod yn ceisio dal gwybodaeth yn ôl. Yn aml iawn bydd ar unigolion sydd ar y sbectrwm angen mwy o amser i ddadansoddi'r hyn sydd wedi cael ei ddweud wrthynt a phenderfynu wedyn beth yw'r ffordd orau o ymateb. Gall ailadrodd cwestiynau'n rhy fuan fod yn ddryslyd i'r unigolyn a gall adael yr unigolyn yn teimlo'n fwy pryderus, mewn sefyllfa sydd eisoes yn achosi pryder.

Mae'n werth cynllunio a threfnu unrhyw gyfarfodydd/cyfweliadau yn ofalus ymlaen llaw. Mae hefyd yn werth rhannu cyfarfodydd yn gyfres o flociau byr a chymryd egwyl yn aml. Bydd unrhyw wybodaeth y gellir ei chael gan weithwyr proffesiynol neu bobl sydd â chysylltiad personol â'r unigolyn yn golygu bod modd trefnu'r sesiwn mewn ffordd bwrpasol sy'n mynd i sicrhau'r

canlyniadau gorau i'r unigolyn ac i weithiwr proffesiynol y system cyfiawnder troseddol.

Ar ddechrau pob cyfweliad, fe'ch cynghorir i baratoi'r unigolyn drwy egluro'n glir beth yw canlyniadau arfaethedig y cyfarfod. Os oes rhagor o gyfarfodydd i'w trefnu, bydd rhybudd ymlaen llaw ynglŷn â'u pwrpas a beth fydd yn cael ei drafod o fudd i lawer sydd ar y sbectrwm. Os oes cyfarfodydd rheolaidd i'w cynnal yna mae'n bosib y byddai'n werth pennu amser a dyddiad rheolaidd bob wythnos ar eu cyfer. Bydd hyn yn cynnig sefydlogrwydd a sefyllfaoedd y gellir eu rhagweld i'r unigolyn a gallai arwain at well presenoldeb, a darparu man cychwyn cadarn ar gyfer y gwaith. Os yw hynny'n bosib, ceisiwch beidio â chanslo / aildrefnu apwyntiadau. Bydd newid trefniadau rheolaidd, neu ddigwyddiadau annisgwyl, yn gwneud i lawer sydd ar y sbectrwm deimlo'n bryderus, a gallai hyn yn ei dro wneud cyfarfodydd dilynol yn llai effeithiol. Os oes angen canslo/aildrefnu cyfarfod gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi digon o rybudd ymlaen llaw, a'ch bod yn cynnig dyddiad/amser arall.

Fel y nodwyd yn barod mae'n bosib y bydd llawer o bobl sydd ar y sbectrwm yn arddangos iaith fynegiadol sydd ar lefel uwch na'u sgiliau iaith derbyngar. Os yw'n bosib, efallai y byddai'n werth defnyddio lluniau i ategu'r rhyngweithio. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn i rywun a yw wedi gweld unigolyn canolig ei faint, â gwallt tywyll byr a llygaid brown, yn gwisgo siwmper ddu a jîns glas gellid dangos llun a gofyn, 'Ydych chi wedi gweld y dyn yma?' Mae'r unigolyn yn fwy tebygol o allu rhoi ateb cywir i gwestiwn pan mae'n cael ei newid o gwestiwn haniaethol i rywbeth gweledol, diriaethol a all brocio'r cof a helpu i roi ateb pendant.

Dylid cadw cyfathrebu ysgrifenedig yn syml ac yn fyr. Yn yr un modd â chyfathrebu geiriol, peidiwch â defnyddio acronymau neu fyrfoddau mewn deunydd cyfathrebu ysgrifenedig a pheidiwch â chynnwys dim byd mwy na'r wybodaeth angenrheidiol. Gan ddilyn y patrwm sy'n cael ei amlinellu yn nogfen yr Adran Iechyd, 'Positive Practice Outcomes' (t.34), dylid gosod deunydd cyfathrebu ysgrifenedig mewn ffont clir maint 14 â bwlch o 21 pwynt rhwng llinellau. Dylid rhoi llinell ychwanegol rhwng paragraffau er mwyn

eu gwahanu'n glir. Dylid alinio testun ar y chwith a gadael yr ochr dde'n afreolaidd.

- Cadwch yr iaith yn glir, yn ddigynnwrf, yn gryno ac yn gyfarwyddiadol.
- Cadwch eich llais yn niwtral. Peidiwch â chodi eich llais na defnyddio iaith a allai gael ei dehongli'n herllyd.
- Defnyddiwch gyn lleied ag sy'n bosib o ystumiau wyneb a dwylo.
- Cyfarchwch yr unigolyn wrth ei enw, os ydych yn gwybod beth yw ei enw, ar ddechrau pob brawddeg.
- Dylech bob amser roi mwy o amser i'r unigolyn brosesu'r hyn a ofynnwyd iddo. Gallai ailadrodd y cwestiwn yn rhy fuan achosi dryswch, a golygu bod yr ymateb a geisir yn hirach yn dod neu'n cael ei ddal yn ôl.
- Peidiwch â siarad yn ddamcaniaethol, gwneud jôcs na bod yn sarcastig. Bydd llawer o bobl sydd ar y sbectrwm yn cymryd yr hyn sy'n cael ei ddweud wrthynt yn llythrennol iawn.
- Peidiwch â chyffwrdd yr unigolyn os gallwch beidio. I lawer o bobl sydd ar y sbectrwm mae cyffyrddiad yn synhwyriad annymunol neu boenus hyd yn oed.
- Os yw'n bosib, defnyddiwch gymhorthion gweledol neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig i gadarnhau'r hyn sy'n cael ei ddweud / yr hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn. Derbynnir yn gyffredinol bod llawer o bobl sydd ar y sbectrwm yn feddylwyr gweledol, hynny yw, pobl sy'n prosesu gwybodaeth yn weledol yn hytrach nag yn eiriol.
- Dywedwch wrth yr unigolyn beth sy'n digwydd bob amser. Os oes dyddiad i'w bennu ar gyfer cyfarfod / gwrandawiad arall, rhowch wybod iddo cyn gynted ag y bo modd.
- Rhowch rybudd ynglŷn â'r hyn fydd yn cael ei drafod yn ystod pob cam, a chyn cyswllt pellach lle bo modd.
- Peidiwch â newid amseroedd / dyddiadau cyfarfodydd / gwrandawiadau fydd yn cael eu cynnal yn y dyfodol os yw hynny'n bosib. Pan fo hynny'n digwydd, rhowch ddigon o rybudd ymlaen llaw.
- Peidiwch â defnyddio acronymau a byrfoddau wrth siarad gyda'r unigolyn.

Enghreifftiau o Astudiaethau Achos:

- Aeth Mr A yn flin iawn pan gafodd ei apwyntiad ei newid ar fyr rybudd.
- Roedd Mr B yn cael anhawster gwirioneddol i fynegi barn o safbwynt rhywun arall yn ystod rhaglen ymddygiad troseddol ar gyfer grŵp. Ar y dechrau roedd yr hwyluswyr yn meddwl ei fod yn tynnu'n groes ac yn gwrthod cydweithredu.
- Roedd Mr C yn gwneud sylwadau amhriodol o hyd ac o hyd yn y cyfweliad. Mewn rhaglen, fodd bynnag, roedd fel pe bai'n cydnabod ei broblemau – o leiaf roedd yn gallu eu rhoi mewn geiriau – ond roedd yn cael anhawster mawr i fynd i'r afael â hwy (h.y. troi 'cyfarwyddiadau' haniaethol yn ymddygiad pendant).
- Roedd Mr C hefyd yn cael anhawster i gynnig dewisiadau eraill, ac yn tueddu'n aml i ffafrio'i ddewis cyntaf a dymuno cadw at hwnnw.
- Roedd Mr D yn meddwl bod y ferch oedd yn ei gyfweld yn ei 'hoffi' mewn ffordd ramantaidd gan ei bod yn gwenu arno.

Gair am Rengoedd Adnabod ar Fideo

Os ydych wedi dioddef trosedd neu os ydych wedi gweld wyneb rhywun yn cyflawni trosedd yna mae'n bosib y gofynnir i chi edrych ar Reng Adnabod ar Fideo.

Ffilm DVD fer yr edrychir arni ar sgrin deledu neu liniadur yw Rheng Adnabod ar Fideo. Mae'r ffilm yn para am tua 3 munud ac yn cynnwys cyfres o glipiau fideo pen ac ysgwydd. Mae'r clipiau fideo hyn yn dangos y person y mae'r Heddlu'n credu ei fod wedi cyflawni trosedd a nifer o wirfoddolwyr sy'n edrych yn debyg i'r sawl sydd dan amheuaeth.

Mae pob person sydd yn y rhes yn ymddangos o flaen cefndir tebyg. Dan amgylchiadau arferol mae pob person yn troi ei ben o'r chwith i'r dde yr un fath yn union fel nad oes neb yn edrych yn wahanol am unrhyw reswm ar wahân i'w olwg. Weithiau bydd y lluniau hyn yn cael triniaeth arbennig i guddio neu ail-greu

nodwedd amlwg. Er enghraifft, gallai mosaig gael ei roi dros ran o'r wyneb neu'r gwddf i guddio nodwedd. Gwneir hyn i bob person yn y rheng er mwyn sicrhau tegwch. Neu, mewn rhai achosion, gellir ail-greu nodweddion y person sydd dan amheuaeth, e.e. tatŵs a chreithiau, ar luniau'r gwirfoddolwyr mewn modd tebyg.

Yng Nghymru a Lloegr mae rheng adnabod ar fideo fel arfer yn cynnwys naw llun sy'n symud. Mae hyn yn cynnwys y person sydd dan amheuaeth ac wyth person sy'n edrych yn debyg iddo yn unol â disgrifiad Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Mae'r drefn Adnabod yn caniatáu i dyst weld fideo o berson sydd dan amheuaeth mewn amgylchedd wedi'i reoli, a'i adnabod yn bendant heb orfod dod i gysylltiad personol ag ef.

Mewn rhai achosion gellir cynnal y weithdrefn adnabod mewn lleoedd ar wahân i orsaf yr heddlu. Mae'r rhain yn cynnwys ysbytai (lle mae dioddefwr wedi cael ei anafu neu'n cael triniaeth) a chartrefi pan fo gan y dioddefwr neu'r tyst anabledd, er enghraifft os yw'n methu â mynd i orsaf yr Heddlu oherwydd yr anabledd neu os yw'n teimlo'n agored i niwed neu wedi'i frawychu. Mae rheolau penodol y mae angen eu dilyn mewn achosion o'r fath, tebyg i'r hyn sy'n digwydd yng ngorsaf yr Heddlu, megis ffilmio'r broses. Mae'n bwysig iawn gwybod eich bod yn gallu siarad gyda'ch swyddog adnabod, na fydd yn blismon o reidrwydd, a thrafod unrhyw bryderon sydd gennych.

Gallai hyn fod yn ddefnyddiol i rywun sydd ag ASD gan mai dysgwyr gweledol ydynt yn aml. Er hyn, rhaid nodi bod rhai pobl sydd ag ASD yn dweud wrthym nad ydynt yn adnabod pobl wrth nodweddion eu hwynebau weithiau a'u bod yn cael anhawster i adnabod pobl heb fod mewn cyd-destun penodol. Felly, gallai'r weithdrefn hon weithio'n dda i rai ond gallai wneud pethau'n fwy dryslyd i eraill.

(Gweler y dyfyniad gan Darius yn Adran 1, t. 7)

Ceir rhagor o wybodaeth yn:
www.viper.police.uk/index.html
www.videolineup.com

Amgylchiadau Anodd

Gall camddealltwriaeth mewn sefyllfaoedd gwahanol arwain at wrthdaro. Er enghraifft, pan ofynnodd casglwr tocynnau ar y trên i ŵr ifanc, 'Alla i weld eich tocyn?', a chael yr ateb 'Na', aeth pethau allan o reolaeth a galwyd yr Heddlu Metropolitan. Roedd y gŵr ifanc wedi rhoi ei docyn ym mhoced ei siaced, ac roedd yn credu ei fod yn dweud y gwir wrth ateb. Roedd y tocyn wedi ei roi o'r golwg, felly ni allai'r casglwr tocynnau ei weld!

Wrth ymwneud ag unigolion sydd ag ASD, mae'n bwysig ceisio gweld pethau o'u safbwynt hwy, ac osgoi gwrthdaro diangen. Mae'n bwysig sylweddoli bod gwahaniaeth rhwng yr ymddygiad gwaeth gydag ASD a'r ymddygiad gwaeth sy'n cael ei achosi gan gyffuriau neu alcohol. Ni ddylid atal yr unigolyn neu ei arestio oni bai fod pob ymgais arall i'w dawelu wedi methu.

Ceir dwy enghraifft isod o sefyllfaoedd lle gallai gwrthdaro ddigwydd a nodir sut y gellid mynd i'r afael â'r gwrthdaro.

Yn y ddalfa

Mae unigolion sydd ag ASD yn methu â dygymod â newid ac maent yn ofni sefyllfaoedd dieithr. Efallai fod ganddynt wrthrych arbennig sy'n helpu i'w cysuro, ac na fyddant yn hoffi gweld y gwrthrych hwn yn cael ei gymryd oddi arnynt. Weithiau nid ydynt yn ymwybodol o faterion iechyd a diogelwch ac, o ganlyniad, maent yn agored iawn i niwed yn y sefyllfa hon. Beth allwch chi ei wneud?

- Byddwch yn ymwybodol o oleuadau, arogleuon ac ati yn yr adeilad a allai wneud ymddygiad digroeso yn waeth ac achosi i'r unigolyn golli arno'i hun.
- Gadewch i'r unigolyn gadw'r gwrthrychau y mae wedi bod yn eu cario o gwmpas os ydynt yn ddiogel. Bydd hyn yn osgoi gwrthdaro diangen.
- Peidiwch â gofyn gormod o gwestiynau i'r unigolyn.
- Dangoswch gliwiau/arwyddion gweledol ar gyfer pob gweithdrefn i'r unigolyn, os yw hynny'n bosib.

Stopio Traffig am Resymau Arferol

Pan fo rhywun sydd ag ASD yn teithio mewn car, mae'n disgwyl cael taith ddirwystr. Felly, os oes rhywbeth gwahanol yn digwydd, mae'n bosib y bydd yn colli arno'i hun. Pe baech yn digwydd stopio teulu sydd â phlentyn ag ASD yn y cefn, byddwch yn barod am yr hyn a allai ymddangos fel cyndynrwydd i gydweithredu ar ran y gyrrwr. Mae diffodd yr injan, goleuadau'n fflachio a seiren i gyd yn bethau sy'n gallu sbarduno ymddygiad digroeso. Mae Awtistiaeth Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu ar hyd a lled Cymru er mwyn gweithredu'r cynllun cerdyn Sylw. Mae'r cerdyn yn tynnu sylw pobl sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol a'r gwasanaethau brys at y ffaith fod gan unigolyn ASD ac yn nodi pa gamau y mae angen eu cymryd.

Cynllun Cerdyn Sylw Awtistiaeth Cymru

Mae'r adborth ynglŷn â'r defnydd o gerdyn Sylw Awtistiaeth Cymru hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol iawn:

'Rhag ofn i rywun fy nghamddeall i ac i mi ddechrau cynhyrfu.'

'Rhag ofn i'r heddlu ddechrau gofyn cwestiynau i mi.'

'Gallech ei ddefnyddio pe baech yn mynd ar goll.'

'Fe allwn i fod yn y lle anghywir ar yr adeg anghywir, ac efallai y byddai'r heddlu'n gofyn cwestiynau ac yn cael y syniad anghywir. Mae'n debyg y byddwn i'n ymateb yn waeth na'r rhai sy'n cyflawni'r trosedd. Ychydig flynyddoedd yn ôl efallai y byddwn i wedi hitio rhywun.'

'Pe bawn i'n colli arnaf fy hun yn y stryd, byddai'r heddlu'n gwybod am fy mhroblem.'

‘Byddwn yn ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd anodd neu pan fyddwn i wedi cynhyrfu gormod i siarad.’

‘Bydd yn fy helpu i gadw allan o drwbl.’

‘Gallai rhywun sydd ag Awtistiaeth neu syndrom Asperger fod mewn helynt heb y cerdyn hwn.’

Mae’r cynllun wedi cael ei groesawu hefyd gan rieni/gofalwyr. Maent yn teimlo bod y cerdyn yn rhoi mwy o annibyniaeth i’w mab neu ferch ac yn caniatáu iddo ef neu hi gymryd rhan mewn gweithgareddau y mae’n eu mwynhau, fel teithio ar fws, mynd i weld gemau pêl-droed neu fynd i siopau cerddoriaeth heb i rywun gamddehongli ei ymddygiad.

Ambell waith bydd unigolion sydd ag ASD yn rhedeg i ffwrdd pan fyddant yn teimlo dan bwysau - neu weithiau os ydynt yn teimlo fel gwneud hynny! Gwyddom am blant ifanc sydd wedi mynd i grwydro ar eu pen eu hunain ar strydoedd prysur mewn dinasoedd mawr gan achosi llawer iawn o bryder i’w teuluoedd. Llwyddodd un plentyn ifanc hyd yn oed i fynd ar drên ar ei ben ei hun ac ni ddaethpwyd o hyd iddo tan i’r trên gyrraedd pen ei daith! Pan nad yw plant ifanc yn gallu siarad mae problemau eraill yn codi a gall hyn gael ei gamgymryd yn aml am nam ar y clyw yn hytrach nag ASD. Efallai nad yw’r system cerdyn yn gwbl briodol dan yr amgylchiadau hyn, oni bai fod y plentyn yn fodlon iddo gael ei osod mewn lle amlwg ar ddilledyn. Gellir defnyddio bandiau arddwrn i roi manylion, ond unwaith eto, dim ond os yw’r unigolyn yn fodlon eu gwisgo. Mae Davis a Schunik (2002) yn awgrymu rhoi disg adnabod arian ynghlwm wrth gareiau esgidiau. Ni fyddai’r tag yn teimlo’n anghyfforddus a byddai’n anodd ei dynnu ymaith. Maent yn awgrymu y dylai’r tag gynnwys gwybodaeth megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn, nodweddion ymddygiad a manylion y sawl y dylid cysylltu ag ef.

Deddfwriaeth a Chanllawiau Perthnasol

- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005)
- Canllawiau Anabledd yng Ngwasanaeth yr Heddlu (2006)
- Canllawiau Addasiadau Rhesymol (Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, 2009)

- Taflenni Ffeithiau Anabledd (Gwasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi, 2009)
- Dull o Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb yn NOMS (NEAT) (2009)
- Gorchymyn y Gwasanaeth Carchardai (PSO) '2855'
- Cylchlythyr Prawf (Cyf:34/2006) - Monitro Anabledd
- Y Ddeddf Iechyd Meddwl (2007)
- Y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2005)

Crynodeb

- Gall unigolion sydd ag ASD ddod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol ambell waith fel dioddefwyr troseddau ac fel cyflawnwyr troseddau.
- Gall strategaethau fel cario cerdyn adnabod a hanesion cymdeithasol osgoi camddealltwriaeth.
- Dylid paratoi unigolion ar gyfer unrhyw gysylltiad y gallent ei gael â'r Gwasanaethau Brys.
- Nid yw unigolion sydd ag ASD yn fwy tebygol o gyflawni trosedd na neb arall, ond gallant fod yn fwy agored i droseddau weithiau fel troseddwyr ac fel dioddefwyr.

Cysylltiadau Defnyddiol a Deunydd Darllen Pellach

Cysylltiadau yng Nghymru

Yn Ebrill 2008, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu ar gyfer awtistiaeth. Dyma'r cynllun gweithredu cyntaf o'i fath i'w gyhoeddi gan lywodraeth, ac o ganlyniad i'r strategaeth hon mae swyddog arweiniol lleol ar gyfer ASD wedi'i ddynodi ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Gallwch ddarganfod pwy yw eich swyddog arweiniol lleol ar gyfer ASD drwy gysylltu â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol leol neu drwy gysylltu â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) (ffôn: 02920 468600). Mae CLILC yn gartref i dri swyddog cymorth rhanbarthol ar gyfer ASD a fydd yn gallu rhoi'r wybodaeth sydd arnoch ei hangen i chi. Gwnewch yn siŵr eich bod yn cael copïau rheolaidd drwy e-bost o gylchlythyr CLILC ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am

gynnydd ym maes awtistiaeth a dulliau gweithredu ledled Cymru, drwy roi eich cyfeiriad e-bost i Swyddogion Cymorth Rhanbarthol CLILC ar gyfer ASD. ASDinfo@wlga.co.uk

Mae Adnodd Awtistiaeth Cymru Gyfan (AWARES) yn darparu gwybodaeth ddwyieithog am ASD yng Nghymru. Yn yr hydref bob blwyddyn mae'n cynnal cynhadledd awtistiaeth ar-lein y byd, ac yn denu cyfraniadau gan rai o addysgwyr, clinigwyr ac ymchwilwyr mwyaf blaenllaw'r byd. www.awares.org

Cysylltiadau y tu allan i Gymru

Mae gwefan Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth yn cynnwys cyfarwyddyd a chyngor defnyddiol iawn. www.nas.org.uk

Adam Feinstein, sy'n dad i ŵr ifanc ag awtistiaeth ac sy'n cael ei gyflogi gan Awtistiaeth Cymru, yw awdur "A History of Autism, Conversations with the Pioneers" a gyhoeddwyd gan Blackwells/Wiley. Yn y llyfr hwn y ceir y darlun cywiraf hyd yn hyn o awtistiaeth, sut mae'n cael ei weld ar hyn o bryd ar hyd a lled y byd a pha ddulliau sy'n cael eu defnyddio gan lywodraethau a'r rhai sy'n gweithio gyda phobl sydd ag awtistiaeth. Mae'r llyfr hwn yn cael ei ystyried yn 'glasur' ym maes anableddau.

Cyfeiriadau

Allen, D. (2006) Asperger Syndrome and Offending Behaviour,

Papur a gyflwynwyd yn 2il Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar ASD, Caerdydd. www.awares.org

System Cyfiawnder Troseddol, (2007) Sicrhau'r Dystiolaeth Orau mewn Achosion Troseddol: Canllawiau ar Gyfweld â Dioddefwyr a Thystion, a Defnyddio Mesurau Arbennig

Davis, B. a Schunick, W.G. (2002) Dangerous Encounters. Avoiding Perilous Situations with Autism, Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Yr Adran Iechyd, (2010) Positive Practice Positive Outcomes: A Handbook for Professionals in the Criminal Justice System working with Offenders with Learning Disabilities

Howlin, P. (2006) Improving Outcomes in Adult Life for People with ASDs, Papur a gyflwynwyd yn 2il Gynhadledd Ryngwladol Cymru ar ASD, Caerdydd. www.awares.org

Jackson, L. (2002) Freeks, Geeks and Asperger Syndrome, Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Jackson, N. (2002) Standing Down Falling Up, Asperger Syndrome from the Inside Out, Bryste: Lucky Duck Publishing.

Lawson, W. (2001) Understanding and working with the Spectrum of Autism, Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Sainsbury, C. (2000) Martian in the Playground, Llundain: Sage Publications.

Deunydd Darllen Pellach

Bowen, M. a Plimley, L. (2008) The Autism Inclusion Toolkit Llundain: Sage Publications.

Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (2008) Autism: A Guide for criminal justice professionals.

Plimley, L. a Bowen, M. (2007) Social Skills and Autistic Spectrum Disorders, Llundain: Sage Publications.

Awduron y llawlyfr hwn sy'n cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yw:

Maggie Bowen, Awtistiaeth Cymru
Owen Davies, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Dean Piper, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Anthony Matthias, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Geraint Spacey, Tîm Troseddau Ieuenctid Sir Fynwy
Philippa Thody, Gwasanaeth Carchardai Ei Mawrhydi
Rowena Williams, Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Rob Heaton-Jones, Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr - Cymru
Suzanne Sweeney, Heddlu De Cymru
Simon Humphreys, Heddlu Gogledd Cymru a rhiant
Gareth Crowe, Heddlu Gogledd Cymru
Gareth Morgan, Awtistiaeth Cymru
Birgit Villeneuve, Awtistiaeth Cymru